

Pris: 50c

Papur Pawb

Mehefin 2018Rhif 440



tud 7	tud 8	tud 15	tud 16
Cors Fochno	Maes y Gwaed	Y Gair Olaf	Chwaraeon

Diogelwch ar y ffordd



Gorymdaith y marchogion.

Ar fore Sul 20 Mai gorymdeithiodd nifer o farchogwyr ceffylau trwy bentref Tal-y-bont o'r Patshyn Glas i Ben-lôn, er mwyn tynnu sylw at ymgyrch i atgoffa gyrwyr ceir fod angen arafu a chaniatáu digon o le wrth fynd heibio i geffylau ar y ffordd. Katie Prickett, Llety-llwyd, a drefnodd fod criw o farchogwyr lleol y cerdded drwy'r pentref fel rhan o'r ymgyrch 'Pass Wide and Slow'.

Ymunodd rhai pentrefwyr hefyd â'r orymdaith i dynnu sylw at gyflymder 30 milltir yr awr gan fod pryderon nad yw llawer o yrwyr yn arafu wrth ddod i mewn i'r pentref o gyfeiriad y de, ac wrth deithio trwyddo.

Mae amryw o drigolion gwaelod pentref Tal-y-bont yn poeni fod ceir a lorïau yn goryrru wrth ddod i lawr allt Pen-rhiw gan beryglu diogelwch cerddwyr.

Bu dirprwyaeth o waelod y pentref yn gweld Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr ynghylch y pryderon yn ddiweddar, ac mae'r Cyngor eisoes wedi bod yn llythyru â'r awdurdodau perthnasol.

Yn ddelfrydol, hoffai rhai o'r Cynghorwyr weld arwyddion sy'n fflachio er mwyn rhybuddio gyrwyr eu bod yn mynd yn rhy

gyflym, tebyg i'r arwyddion a geir wrth deithio trwy bentref Peniel yn Sir Gaerfyrddin, ar y ffordd i dref Caerfyrddin.

Deallwn erbyn hyn, yn dilyn cyfarfod rhwng Elin Jones AC, y Cynghorydd Ellen ap Gwynn a Richard Morgan, swyddog yn Adran Drafnidiaeth y Cynulliad, fod yr Asiantaeth Prifffyrdd yn ystyried symud yr arwyddion 30 milltir yr awr ymhellach i'r de o'r pentref i gyfeiriad Llys Ynyr a Hen Felin, a gosod arwyddion 40 milltir yr awr y tu hwnt i'r rheini wedyn, fel bod y traffig yn arafu wrth ddod at y pentref.

Mewn llythyr at Elin Jones, cadarnhaodd y Gweinidog Economi a Thrafnidiaeth Ken Skates AC, y bydd diogelwch ar yr A487 drwy Dal-y-bont yn cael ei ystyried fel rhan o'r arolwg tair blynedd o ddiogelwch ar ffyrdd Cymru.



Y Cynghorydd Nia Evans yng nghwmni nifer o drigolion Tal-y-bont sy'n poeni am gyflymder y traffig drwy'r pentref.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Gwyn Jenkins (01970) 832560
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
golygydd@papurpawb.com
Cysyllter â golygyddion y mis

Tynnu lluniau:

Tal-y-bont: Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592
Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont 832438
Maes-y-deri: Karren Roberts 07800 806578
Parsel Henllys: Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont 832498
Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Tre Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin 832230
Tre'r-ddôl: Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl (01654) 781260
Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl 832028
Non Griffiths, Fferm Ffwrnais, Ffwrnais (01654) 781264
Ceri Morgan

Eglwysfach/Ffwrnais: Rhwydweithiau cymdeithasol:

Cadeirydd: Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont 832203
Is-gadeirydd: Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont 832697
Ysgrifennydd: Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont 832344
Trysorydd: Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Ghwygrifiadau: Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448
Hysbysebion: Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont 832076
Plygu'r Papur: Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins
Dosbarthwyr: Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

Dyddiadur

- MEHEFIN**

9 **Gemau Bwrdd i bob dysgwr Cymraeg** 3.15-4.45 Cletwr

10 **Bethel 2** Terry Edwards (C)
Nasareth 5 Eifion Roberts
Rehoboth 10 Terry Edwards
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Gweddi hwyrol
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Gwasanaeth boreol

11 **Hanfodion I-Padiau a Gliniaduron** (Cwrs 6 wythnos, £30) 9-11 Cletwr

12 **Tenis Bwrdd 7** Ystafell Haearn, Eglwysfach

13 **Amser Stori** 2.15-3 Cletwr

14 **Tai Chi 2-3.30** Ystafell Haearn, Eglwysfach

16 **Dal Ati** 11-12 Cletwr

17 **Bethel 10** Gwasanaeth Teulu
Rehoboth 11.15 Bugail
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Cymun Bendigaid

18 **Hanfodion I-Padiau a Gliniaduron** 9-11 Cletwr

20 **Dawnsio Albanaidd** 7.30 Ystafell Haearn, Eglwysfach

21 **Tai Chi 2-3.30** Ystafell Haearn, Eglwysfach

22 **Sesiwn Nos Wener** Elin Fflur 8 Y Llew Du

24 **Bethel 10** Geraint Evans
Nasareth 5 Terry Edwards
Rehoboth 10 Tecwyn Jones
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Gweddi hwyrol
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30 Gwasanaeth boreol
Dyrannu pelenni tylluanod 3-5 Cletwr
Parti Canol Haf 6 Ystafell Haearn, Eglwysfach
- 25 **Hanfodion I-Padiau a Gliniaduron** 9-11 Cletwr

26 **Mat Rhacs Cymunedol** 3-5 Cletwr
Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn Megan Hayes 7 Llanfach
Tenis Bwrdd 7 Ystafell Haearn, Eglwysfach
Cymhorthfa Daenlenni (Cwrs 3 wythnos gyda Dysgu Bro Ceredigion) 6.45-8.45 Cletwr

27 **Taith Henoed Llangynfelyn** i Ganolfan Arddio Fron Goch. Gadael Taliesin am 9 yb.

28 **Tai Chi 2-3.30** Ystafell Haearn, Eglwysfach

29 **Eglwys Sant Pedr, Elerch** 10 Cymun Bendigaid
Caws, Gwin a Chân gyda Bois y Rhedyn ac artistiaid lleol 7 Eglwys Sant Pedr, Elerch

30 **Gweithdy Crefftai i Blant** 3.30-5.30 Cletwr

GORFFENNAF

1 **Bethel 10** Wyn Morris (C)
Rehoboth 5 John Tudno Williams
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaid
Capel Bethesda Tynant 2 Brian Davies

2 **Hanfodion I-Padiau a Gliniaduron** 9-11 Cletwr

3 **Sefydliad y Merched Taliesin** 'Chwarae Dominos'

6 **Sefydliad y Merched Taliesin** Taith i Langollen
Sesiwn Nos Wener Alejandro Jones 8 Y Llew Gwyn

7 **Ocsiwn 7** Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach

8 **Bethel 11.15** Uno yn Nasareth
Nasareth 11.15 Bugail
Rehoboth 10 Prysor Davies

- Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Gweddi hwyrol
- Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
- 9 **Hanfodion I-Padiau a Gliniaduron** 9-11 Cletwr
- 15 **Bethel 10** Gwasanaeth Teulu
Rehoboth 11.15 Bugail
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Hwyrol Weddi
- 21 **Taith 'Dal Ati'** i Sesiwn Fawr Dolgellau 11 Cletwr
- 22 **Bethel 10** Uno yn Nasareth
Nasareth 10 Judith Morris
Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth – Penllwyn
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Gweddi hwyrol
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
- 29 **Bethel 10** Geraint Evans
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

AWST

- 5 **Bethel** Uno yn Rehoboth
Rehoboth 5 Bugail
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaid
- 12 **Bethel 10** Watcyn James (C)
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth Uno ym Methel
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Gweddi hwyrol
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
- 19 **Bethel 10** Uno yn Rehoboth
Rehoboth 10 Bugail

Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Cylch Meithrin Tal-y-bont

Nos Iau, 5 Gorffennaf am 6.30
Yn y Tŷ Sbri
(wrth ochr yr ysgol).

Croeso cynnes i bawb

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Cigydd

Porchell

01970 828 447 Pendre, Bow Street

Pa brofiad sy'n well
na blasu cigoedd 'Porchell'?

- Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Cymun Bendigaid
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Hwyrol Weddi
- 26 **Bethel 10** Beryl Vaughan
Rehoboth 10 Beryl Vaughan
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15 Gweddi hwyrol
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30

MEDI

- 2 **Bethel 2** Richard Lewis (C)
Nasareth Oedfa'r Ofalaeth yn Rehoboth
Rehoboth 10 Oedfa'r Ofalaeth
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15
Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach 9.30
Eglwys Sant Pedr, Elerch 2.30 Cymun Bendigaid
- 4 **Sefydliad y Merched Taliesin** 'Cyflwyno eich hunan'
- 9 **Bethel 11.15** Uno yn Nasareth
Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach 2.15

Cletwr:
Bob dydd Mawrth: 'Tro a Chlone' 11-11.45
Bob dydd Mawrth: 'Clone a Gweu' 3-5
Bob dydd Sul: 'Rhedeg Cymdeithasol' 9.30-10.30

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu eich sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech ddanfon y manylion llawn at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com (01970 832478) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Cymdeithas Papur Pawb

Cyfarfod Blynnyddol nos Fercher
4 Gorffennaf am 7.30
Neuadd Goffa Tal-y-bont

Croeso cynnes i bawb

GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Delyth a Bleddyn gydag Iolo yn dylunio. Ni fydd rhifyn nawr tan fis Medi. Y golygyddion ar gyfer y rhifyn hwnnw fydd Helen (helen.iwan@btinternet.com), Rhian (rhian.nelmes@btinternet.com) a Ceri (stiwedio@ceri-talybont.com). Y dyddiad cau yw 7 Medi a bydd y papur ar werth ar 14 Medi.

Y Cylch Meithrin

Mae Cylch Meithrin Tal-y-bont yn falch iawn y bydd dwy aelod o staff newydd, hynod brofiadol, yn dechrau ym mis Medi, sef Vicky Joseph a Mali Jones. Edrychwn ymlaen yn fawr at eu croesawu.

Eglwys-fach

Cynhaliwyd bore coffi, yn yr Ystafell Hearn, ar yr 28ain o Ebrill, ynghyd ag arwerthiant planhigion. Codwyd y swm sylweddol o £353.60c at gynhaliath y fynwent yn Eglwys Sant Mihangel.

Cydymdeimlo

Trist oedd clywed am farwolaeth Hywel Morgan Jenkins, Neuadd yr Ynys, Taliesin yn 89 mlwydd oed. Cydymdeimlir â'r teulu oll.

Trist hefyd yw cofnodi marwolaeth Alwyn David Farthing, Brynheulog, Eglwys-fach, ar yr 11eg o Fai, ac yntau wedi cyrraedd yr oedran teg o 92 mlwydd oed. Mae'n cydymdeimlad dwys â'i weddw, Daphne yn ei phrofedigaeth.

Newyddion trist oedd clywed am farwolaeth Gerald Roberts, 90 Maesyderi, Tal-y-bont. Cydymdeimlwn yn ddwys ag Eirian ei wraig, a Iestyn a Nerys y plant.

Ennill gwobrau yn y Wladfa

Llongyfarchiadau i Carys Briddon, Tre'r-ddôl, am ennill gwobrau yn Eisteddfod Trevelin, y Wladfa. Derbyniodd wobwr am lunio ysgrif ar y thema 'Hel Meddyliau' ac am hunangofiant 'Het Taid'.

Pen-blwyddi

Llongyfarchiadau i Dafydd Jenkins, Tanrallt, Tal-y-bont, ar ddathlu pen-blwydd arbennig ganol Mai. Hefyd i Terri Burns, Bron Haul, Tal-y-bont, hithau wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ystod y mis.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da i James Cartwright ac Emily, Oak Cottage, Taliesin ar enedigaeth eu merch fach Erika ar 30 Mai a hefyd i Sylvia Cartwright, 1, The Romans, ar fod yn nain eto.

Pobl a Phethe



Aelodau Cwmni Licris Olsorts

Llwyddiant i Gwmni Licris Olsorts

Llongyfarchiadau gwresog i aelodau cwmni drama Licris Olsorts a'r Cynhyrchydd Sion Pennant, Bont-goch ar gipio'r wobwr am Gwmni Gorau'r Wyl yng Ngŵyl Ddrama Corwen yn ystod mis Mai gyda'r ddrama gomedi *Y Fainc* o waith Emyr Edwards. Daeth llwyddiant arbennig i'r cast hefyd, sef Glyn Jones, Commins-coch, Rhian Evans, Glanrafon a Steffan Nutting, Tŷ Hen Henllys. Cipiodd Rhian y tlws am yr actor gorau dros 30 oed a Steffan yn ennill y tlws am y perfformiad gorau gan unigolyn o dan 30 oed. Derbyniwyd canmoliaeth uchel gan y beirniad Steffan Parry a llwyddodd y cwmni i ennill y drydedd wobwr hefyd gyda *A'r Maglau Wedi Torri*, drama arall o waith Emyr Edwards a Rhian eto yn y cast yng nghwmni Sharon King, Elgar, Bow Street. Dymunwn y gorau i'r ddwy wrth gystadlu gyda'r ddrama hon yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd ddechrau Awst.

Gwellhad buan

Dymuniadau gorau i Mair Nutting, Tŷ Hen, Henllys, yn dilyn ei thriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da clywed ei bod yn gwella. Dymuniadau gorau hefyd i Gerwyn Jones, gan obeithio y bydd yn gwella'n fuan.

Blaenoriaid newydd

Llongyfarchiadau i Nia Evans, Rhiwlan, a Janet Jones Llwyn-glas, Tal-y-bont, ar gael eu hethol yn flaenoriaid yng Nghapel Nasareth (MC).

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Jen a Gwyn Davies, Erw Lon, Tal-y-bont, ar ddathlu eu priodas aur.

Swydd newydd

Dymuniadau gorau i Hayley Davies, Gwynfryn, Tal-y-bont,

ar ei swydd newydd lawn amser yn Ysgol Plas-crug, Aberystwyth.

Tysteb y Parch Andrew Lenny

Bydd y Parch Andrew Lenny yn ymddeol o'i ofalaeth fel gweinidog yr Annibynwyr yn Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth, ar ddiwedd Gorffennaf eleni ar ôl 31 mlynedd o wasanaeth diflino. Bwriedir gwneud tysteb i ddangos gwerthfawrogiad yr ardal iddo ef a Rosemary ac fe dderbynnir cyfraniadau os dymunwch i 'Seion Eglwys Gynulleidfaol Baker Street' gan Lewis Gruffudd, 66 Maesceinion, Waunfawr, Aberystwyth, SY23 3QJ, erbyn 17 Mehefin. Bydd y dysteb yn cael ei chyflwyno iddynt mewn gwasanaeth arbennig ym mis Gorffennaf.

Cymorth Cristnogol

Cyfanswm y casgliad i Gymorth Cristnogol ym mhlwyf Llangynfelyn eleni oedd £129. Roedd y trefniadau yng ngofal Carys Briddon (trefnydd) ac Owen Jenkins (trysorydd).

Eglwys St. Pedr, Elerch

Dymuniadau gorau i'n curad, Y Parch Lyn Lewis Dafis sydd bellach adref o'r ysbyty ac yn gwella'n dda ar ôl ei salwch diweddar.

Cofiwch gefnogi ein noson flynyddol o Gaws, Gwin a Chân gyda Bois y Rhedyn o Landdewibrefi ac artistiaid lleol a gynhelir ar nos Wener 29 Mehefin, 7.00 pm. John ac Eirwen Hughes, Pencwm yw'r llywyddion eleni.

Rali CFfl Ceredigion

Llongyfarchiadau i Glwb CFfl Tal-y-bont am ddod yn gydradd ail â chlwb Tregaron yn Rali'r Sir ddechrau'r mis. Un pwynt yn unig oedd yn gwahanu'r ddau glwb oddi wrth yr un a ddaeth yn gyntaf, sef clwb Lledrod. Daeth y newydd fel yr oedd y rhifyn yn mynd i'r wasg.

Gwobr Tir Glas



Llun trwy garedigrwydd Hybu Cig Cymru.

Llongyfarchiadau i Richard John Jenkins, Ynysgreigiog, Ffwrnais, am ennill cystadleuaeth tir glas mewn digwyddiad a drefnwyd gan Gymdeithas Amaethyddol Cymru i drafod ansawdd cnydau gwair a phorfa. Dyma lun ohono gyda'r teclyn a enillodd i fesur faint o feillion sydd yn y borfa.



Hoffem ddiolch yn fawr i Rachel a Christina o Brifysgol Aberystwyth am fore llawn hwyl yn arbrofi efo gwahanol fathau o lethrau i brofi ffrithiant. Roedd plant Blwyddyn 3 a 4 wrth eu boddau’n cael amcangyfri, mesur a chofnodi eu canlyniadau. Da iawn chi.

Ymweliad Awdures



Yn ystod y mis daeth yr awdures Felicity Haf ac wrth gwrs Begw Haf ei hunan i ymweld ag Ysgol Tal-y-bont. Roedd hi’n gyfle da i’r plant gael gofyn cwestiynau am y llyfr ac am y cymeriadau. Diolch yn fawr iawn am ddod atom – roedd pawb wedi mwynhau clywed y stori a chael dylunio cacennau arbennig. Tybed a fydd un ohonynt yn y stori nesaf?

Cwmni Pypedau Vagabondi



Daeth Cwmni Vagabondi yn ôl atom yn ystod mis Mai i gynnal gweithdy arall – gyda phlant Cyfnod Allweddol 2 y tro hwn. Cafodd Jo a Jim ddiwrnod prysur arall yn dysgu’r plant sut i animeiddio a sut i greu sioe bypedau gan ddefnyddio cysgodion. Ac unwaith eto ar ddiwedd y dydd gwahoddwyd rhieni i’r ysgol er mwyn i’r plant gael dangos eu gwaith iddynt. Diolch o galon i bawb oedd yn medru cefnogi a diolch yn fawr i’r staff am baratoi ar gyfer y digwyddiad.

Ardal allanol yr ysgol



Dros yr wythnosau diwethaf rydym wedi gweithio’n galed i wella ardal allanol y plant lleiaf. Hoffem fanteisio ar y cyfle i ddiolch o galon i nifer o rieni am eu gwaith yn clirio ac yn paratoi, i ffrindiau’r ysgol am bob cymwynas ac i’r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am noddi’r gwaith. Fel y gwelwch, fe gafodd y plant dipyn o hwyl yn plannu’r blodau a’r perlysiau.

Cymru FM



Fel rhan o ymrwymiad yr ysgol i hybu’r Siarter Iaith, gwahoddwyd y DJ radio adnabyddus Marc Griffiths i’r ysgol i gynnal gweithdy arbennig gyda phlant hŷn yr ysgol. Roedd yn gyfle unigryw iddynt greu a darlledu rhaglen radio ar y we. Fe gafodd y plant ddiwrnod llawn dop o brofiadau gwahanol wrth iddynt greu sgriptiau, dewis recordiau a chyflwyno gwybodaeth am yr ysgol a’r ardal. Mae’n bosib gwrando ar y rhaglen hanner awr o hyd wrth fynd ar wefan Cymru FM. Da iawn chi blant am gyflwyno’r deunydd mewn ffordd ddifyr a hwyliog – gwych!



Salon Leri

Pob agwedd o drin gwallt gan Richard

10am-7pm
Llun-Gwener

(01970) 832 674

Ysgol

Pen-blwydd hapus Cletwr



Roedd hi’n braf iawn gweld cymaint o deuluoedd yr ysgol yn cefnogi datgliadau pen-blwydd Cletwr yn 5 oed yn ddiweddar. Diolch o galon i aelodau’r Gymdeithas rieni am eu holl waith yn paratoi’r stondin moctêls – roedden nhw’n flasus iawn.

Llwyddiant Eisteddfodol



Llongyfarchiadau mawr i Miriam Llwyd Davies ar ei llwyddiant yn dod yn gyntaf am yr unawd Blwyddyn 6 ac iau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanellwedd. Roedd y safon yn arbennig o uchel ac roedd hi’n dipyn o gamp iddi ddod ar y brig. Fel gwobr ychwanegol, bydd Miri’n perfformio yng Ngŵyl Gymreig Disneyland Paris ym mis Mawrth 2019. Pob hwyl i ti a *magnifique!*

Roedd Miri a Caoimhe hefyd wedi cystadlu gydag Adran Tref Aberystwyth yn yr eisteddfod yn Llanellwedd hefyd – da iawn chi ferched.

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi

Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129

07761 917235

Tal-y-bont

Ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol



Ar 9 Mai, roedd hi'n 100 mlynedd ers geni un o arlunwyr mwyaf adnabyddus Cymru, y diweddar Syr Kyffin Williams. Ychydig cyn ei farwolaeth yn 2006, aeth criw o Ysgol Tal-y-bont i ymweld ag ef yn ei gartref, cawsom groeso mawr yno ac roedd y plant wrth eu boddau'n sgwrsio gydag ef am ei fywyd a'i waith. Roedd hi'n braf inni felly fanteisio ar gyfle i ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol er mwyn ail-fyw'r hanes a chofio eto amdano. Diolch yn fawr i Sara ac Owain am ddarparu gweithgareddau pwrpasol ar ein cyfer.

Ysgol iach



Hoffem ddiolch yn fawr i Malcolm Dines am redeg y Clwb Beicio ar ôl Ysgol i ni. Mae beicio'n weithgaredd boblogaidd iawn yn yr ysgol ac mae'n braf gwybod fod y plant yn cael eu hyfforddi'n gywir gan Malcolm. Llongyfarchiadau mawr i'r plant fu'n rhan o'r Wyl Feicio flynyddol yn Aberystwyth dros benwythnos Gŵyl y Banc hefyd a da iawn chi am yr ymdrech.

Llongyfarchiadau i bawb sydd wedi cael eu dewis yn Sêr y Sgwteri yn ystod mis Mai. Da iawn chi am eich gwaith da a phob hwyl gyda'r sgwtera.

Ysgol Penweddig

Ar y 23ain o Fai, cynrychiolodd nifer o blant yr ardal yr ysgol ym mabolgampau Ceredigion. Daeth Megan Glover, Tal-y-bont, yn 1af yn y ras 800m, ac yn 2il yn y gystadleuaeth naid hir i ferched blwyddyn 8. Daeth Cai Thomas, Glas-y-ddôl, i'r brig yn y gystadleuaeth 1500m i fechgyn blwyddyn 8, a daeth Connor Byrne, Tre'r-ddôl, yn yr 2il safle yn y gystadleuaeth taflu pwysau, a 3ydd yn y gystadleuaeth disgen i fechgyn blwyddyn 10. Bydd pum unigolyn o'r ysgol, gan gynnwys Megan a Cai, yn cynrychioli Ceredigion yng nghystadleuaeth mabolgampau Cymru. Pob lwc i chi.

Betsan Siencyn

Ben Lake - O Senedd Llundain

Edrych yn ôl ac ymlaen
“A week is a long time in politics”
– dyna ddywediad enwog Harold Wilson. Fodd bynnag, a blwyddyn bellach wedi pasio ers i mi gael fy ethol yn Aelod Seneddol dros Geredigion, mae'n rhaid i mi anghytuno gyda'r cyn-Brif Weinidog – mae'r wythnosau a'r misoedd ers y noson fythgofiadwy honno yn Aberaeron ar Fehefin yr 8fed 2017, wedi hedfan.



Ac am flwyddyn y mae hi wedi bod! O droedio o sioe i sioe dros yr haf, i gymorthfeydd wythnosol ymhob cwr o'r sir odidog hon, i ofyn fy nghwestiwn cyntaf i'r Prif Weinidog fis diwethaf. Yn sicr, does dim un diwrnod nac wythnos yn ddiflas – er rhaid cyfadde' bod coridorau di-ben-draw San Steffan yn dal i fy nrysu hyd yn oed flwyddyn yn ddiweddarach!

Rwy'n falch o'r hyn rwyf wedi ei gyflawni dros Geredigion ers cael fy ethol. Rwyf wedi blaenoriaethu'r materion sy'n effeithio ar ein cymunedau o ddydd i ddydd – o gysylltdd digidol, i fancio gwledig, i ddiogelu gwasanaethau hollbwysig, megis bad achub Cei Newydd. Fodd bynnag, daw'r pleser mwyaf bob tro o fedru helpu unigolion – p'un ai wrth eu helpu i gael triniaeth angenrheidiol, ad-daliad dyledus, neu yn fwy na dim eu helpu i gael chwarae teg haeddiannol.

Er hynny, does fawr o le i ramantu gormod am y flwyddyn a fu chwaith, gyda phethau'n debygol o boethi yn San Steffan dros y misoedd nesaf. Gyda thrafodaethau Brexit yn prysur gyrraedd penllanw, byddaf yn parhau i ymladd am y fargen orau dros Geredigion a thros Gymru.

Gallai fod yn gyfnod cythryblus yma yng Ngheredigion hefyd. Gyda'r Bwrdd Iechyd yn edrych i ddiwygio eu darpariaeth iechyd yng Ngheredigion, Sir Gâr a Sir Benfro, byddaf yn parhau i ymladd ochr yn ochr ag Elin Jones AC i sicrhau na fydd trigolion y sir ar eu colled yn sgil unrhyw newidiadau posib. Rwyf hefyd yn wyliadwrus i newidiadau posib i'r gyfundrefn fudd-daliadau a ddaw yn sgil cyflwyno Credyd Cynhwysu – gallai'r gyfundrefn effeithio ar yr unigolion mwyaf bregus yn ein cymdeithas.

Hoffwn ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfeillgarwch dros y flwyddyn ddiwethaf – ac edrychaf ymlaen at glonc gyda nifer ohonoch mewn sioe, gŵyl neu ddatliad dros yr haf. Yn y cyfamser, os gallaf fod o unrhyw gymorth, mae croeso i chi gysylltu â mi ar ebost ben.lake.mp@parliament.uk neu drwy ffonio'r swyddfa ar **01570 940 333**.

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES STORAGE

Storfa Cartref a Busnes



Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion

Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi



Wales REMOVALS

www.midwalesremovals.co.uk

Bocsas a bubblewrap ar lein

www.boxshopsupplies.co.uk

Ffon: 01654 703592

www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

INVESTORS IN PEOPLE | BUDSODDŴYR IN PEOPLE | MEWN POBL

1. Cyfarfod Blynyddol

Etholwyd Enoc Jenkins yn Gadeirydd newydd y Cyngor, a David Jones yn Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2018/19. Hefyd, fe enwebwyd Bleddyn Huws yn gynrychiolydd y Cyngor ar Bwyllgor y Cylch Meithrin, a Rhian Evans yn gynrychiolydd y Cyngor ar Bwyllgor Ardal Ceredigion Un Llais Cymru. Estynnodd Megan Mai, y Cadeirydd ymadawol, ddiolch i'r aelodau a'r Clerc am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a dymunodd y gorau i'r Cadeirydd newydd, Enoc Jenkins.

2. Materion Amrywiol a godwyd ag adran Gwasanaethau Technegol, Cyngor Sir Ceredigion

Adroddodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn fod Brian Thomas, Peiriannydd Cynorthwyol Gweithrediadau Cyngor Sir Ceredigion, wedi cytuno i gwrdd ag Ellen ac aelodau eraill o'r Cyngor i archwilio'r safleoedd ar y cyd. Nid oes dyddiad wedi cael ei bennu hyd yma, ond mi ddylai fod yn y dyfodol agos iawn.

3. Gohebiaeth: Cyngor Sir Ceredigion – Newidiadau Arfaethedig i'r Cyfyngiadau Parcio

Derbyniwyd hysbysiad fod y Cyngor Sir yn cynnig gwneud nifer o newidiadau i'r cyfyngiadau parcio yng Ngheredigion. Derbyniwyd copi o'r cynigion ar gyfer plwyf Ceulanamaesmawr (pob un ar yr A487): cynnig y Cyngor Sir oedd cadw'r un drefn yn Nhal-y-bont. Derbyniwyd cynigion y Cyngor Sir ar gyfer y tri man presennol, a chytunwyd i gynnig dau fan arall i'r Cyngor Sir lle byddai cyfyngiad parcio yn gwella diogelwch y ffordd fawr, yn nhyb y Cyngor Cymuned. Teimlir y byddai cyfyngiad ar ddwy ochr y gyffordd i Ffordd yr Eglwys, ger Anwylfa, ac ar ochr dde-orllewinol y bont fawr ar waelod y pentref yn lleihau'r risg o wrthdrawiad ym mhentref Tal-y-bont.

4. Gohebiaeth: Grantiau i Cymunedau Ceredigion

Derbyniwyd hysbysebiad ynglŷn â Chist Gymunedol Ceredigion. Gall grwpiau a chlybiau chwaraeon neu weithgaredd corfforol gymryd mantais o hyd at £1,500 i sicrhau bod mwy o bobl yn cymryd rhan, ac i godi safonau. Gall y grant dalu am: gostau dechrau clwb; hyfforddiant gwirfoddolwyr a hyfforddwyr chwaraeon; costau cychwynnol llogi cyfleusterau a chostau hyfforddwyr; offer. Gyda thros £75,000 yn y gronfa eleni, maent am annog clybiau a grwpiau i gyflwyno ceisiadau. Am ragor o fanylion, ewch i www.ceredigionactif.org.uk.

5. Gohebiaeth: Cyngor Sir Ceredigion – Penodi Aelodau i Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion

Mae'r Cyngor Sir yn awyddus i benodi pobl frwdfrydig i eistedd ar y Fforwm Mynediad Lleol. Mae'r fforymau yn cynrychioli amrywiaeth eang o fuddiannau fel y gallant chwarae rôl bwysig o ran gwella a rheoli mynediad i gefn gwlad amrywiol ac atyniadol y Sir. Penodir Aelodau i'r Fforymau am dymor o dair blynedd. Os oes gennych ddiddordeb mewn datblygu mynediad cyhoeddus a'r gweithgareddau hamdden sy'n gysylltiedig â hynny, gall y Fforwm fod yn fodd o gysylltu'n effeithiol â Chyngor Sir Ceredigion, Asiantaethau'r Llywodraeth a mudiadau eraill sydd â chyfrifoldebau neu fuddiannau yn y meysydd hyn. Os hoffech chi fod yn rhan o'r drafodaeth ynghylch dyfodol mynediad cyhoeddus yng Ngheredigion, y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 2 Gorffennaf, 2018. Am ragor o wybodaeth am Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion, a ffurflen gais, ewch i wefan y Cyngor Sir: <http://www.ceredigion.gov.uk/preswylwiwr/yr-arfordir-a-chefn-gwlad/fforwm-mynediad-lleol/?pacs>.

Ar 25 Mai daeth rheoliadau diogelu data newydd y Gymuned Ewropeaidd i rym, ac er y bydd gwledydd Prydain yn gadael yr Undeb ym mis Mawrth 2019, mae Llywodraeth Prydain wedi datgan y bydd y rheoliadau hyn yn aros.

Mae'r rheoliadau yn gwneud yn siŵr fod pawb sy'n cadw manylion personol amdanom yn gorfod eu diogelu a datgan i ba bwrpas y defnyddir yr wybodaeth. Golyga hyn fod yn rhaid i gwmnïau a sefydliadau o bob math gydymffurfio, yn ogystal â mudiadau a sefydliadau gwirfoddol fel pwyllgorau neuaddau pentref a sioeau amaethyddol bychain. Bwriad y ddeddf newydd yw gofalu nad oes neb yn cadw nac yn defnyddio gwybodaeth bersonol amdanom heb ein caniatâd, sy'n rhywbeth i'w groesawu, yn enwedig yn sgil scandal y cwmni Cambridge Analytica a ddefnyddiodd ddata personol 87 miliwn o ddefnyddwyr Facebook at ddibenion gwleidyddol.

Ond mae gofalu fod mudiadau bychain lleol yn cydymffurfio yn golygu newid rhai arferion, ac mae wedi golygu cryn waith ychwanegol i ysgrifenyddion pwyllgorau. Daeth hyn yn amlwg yn achos aelodaeth capel Bethel Tal-y-bont lle mae'r aelodau'n cyfrannu'n ariannol bob blwyddyn a lle mae enw a chyfeiriad a maint cyfraniad unigolion neu deuluoedd at y capel yn cael eu cyhoeddi yn yr Adroddiad Blynyddol. O hyn ymlaen, mae'n rhaid i ysgrifennydd y capel gysylltu â phob aelod er mwyn cael eu caniatâd i ohebu â nhw drwy e-bost, ac ni fydd modd cyhoeddi pob gwybodaeth fel o'r blaen. Mewn llythyr a anfonwyd at yr aelodau, dywedodd Phil Davies, ysgrifennydd y capel:

“Eleni yw'r tro olaf i ni fedru cyhoeddi manylion cyfraniadau aelodau unigol mewn adroddiad blynyddol, ac o'r flwyddyn nesaf ymlaen yr unig fanylion a roddir fydd cyfansymiau'r derbyniadau fesul dosbarth.”

Peth da yw gwarchod gwybodaeth bersonol, wrth reswm, ond amser a ddengys a fydd y ddeddf newydd a'i rheoliadau yn llwyddo i atal drwgweithredwyr a chwmnïau masnachol rhag camddefnyddio ein data personol heb yn wybod inni. Amau y mae dyn fod y lladron a'r dynion drwg a diegwyddor wastad un cam ar y blaen.



Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

Bistro
Gannets



Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth

617164

Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Y LLEW GWYN

Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwsrs £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com

CORS FOCHNO

Enillodd Carys Briddon, Tre’r-ddôl, y wobwr gyntaf yng nghystadleuaeth llunio ‘Erthygl papur bro yn trafod unrhyw nodwedd ddaearyddol yn yr ardal’ yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch eleni. Yr ydym yn ddiolchgar iddi am ei chaniatâd i gyhoeddi’r erthygl yn y papur.

Cors Fochno yw’r bwysicaf o holl gorsydd Cymru. Mae’n ymestyn o’r arfordir ger y Borth i blwyf Llangynfelyn, ac mae’n un o’r corsydd mawn mwyaf ym Mhrydain. Mae’n edrych fel darn o dir diffaith a di-liw, ond nid yw hyn yn wir gan ei bod yn llawn bywyd. Fel rhan o Warchodfa Natur Dyfi mae’n noddfa i fywyd gwyllt, ac mae rhai anifeiliaid a phlanhigion wedi datblygu yn y fath fodd fel mai ar y gors yma’n unig y gallant oroesi erbyn hyn. Mae o ddiddordeb enfawr i ddaearegwyr a botanegwyr, ac fel yr unig gors yn Ewrop sydd ar dir isel a heb ei niweidio gan ddatblygiadau diwydiannol, mae ei phwysigrwydd i gadwraeth yn enfawr. Gyda chymaint o sôn am newid hinsawdd sy’n debygol o godi lefel y môr, mae yna bryder am effaith hyn ar y gors a’r amgylchedd. Mae’n un o’r llefydd pwysicaf yn y Deyrnas Unedig ar gyfer gwneud ymchwil i newid hinsawdd, a gosodwyd gorsaf dywydd fechan arni ar gyfer yr ymchwil yma.

Gan ei bod yn llawn twmpathau a phantiau gwlyb, mae’r cynefin amrywiol yma yn ddelfrydol i gartrefu llawer math o blanhigion ac anifeiliaid. Yn ôl Chwedl y Creaduriaid Hirhoedlog, credir fod llyffant Cors Fochno i’w restru’n ail ymhlith creaduriaid hynaf yr holl fyd. Cyfeirir at y llyffant mewn cerdd o’r enw ‘The Ancients of the World’ a luniwyd gan y bardd R. S. Thomas a fu’n byw yn Eglwysfach gerllaw. Ceir yma sawl math o fwsogl sbagnwm a thri math o blanhigyn sy’n dal ac yn bwyta pryfed, a’r rhain yn brin iawn mewn ardaloedd eraill ym Mhrydain. Mae’n gartref i bob math o bryfed ac adar gan fod yna ddigonedd o fwyd iddynt.

Mae’r gors yn gofnod hanesyddol o’r saith mil o flynyddoedd diwethaf. Gall sampl o’r mawn o waelod y gors ddangos beth yn union a ddigwyddodd pan doddodd y rhewlif yn ystod Oes yr Iâ. Gan fod lefel y môr lawer yn is rhyw wyth mil o flynyddoedd yn ôl, dechreuodd aber yr afon Ddyfi lenwi gyda mwd a llaid. Pan ddechreuodd rhai planhigion dyfu yno trodd yr ardal yn gors llawn brwyn. Fesul tipyn tyfodd coed bedw a gwern ar y mannau sychaf, ac yna coed derw, collen, pinwydden, llwyfen a phalalwyfen, i greu coedwigoedd mawr. Rhyw dair mil o flynyddoedd yn ôl meddiannodd y môr y tir a daeth diwedd i’r goedwig gan adael troedfeddi o fawn uwchben yr hen goedwig. Yn dilyn stormydd dros y blynyddoedd diwethaf daeth olion yr hen goedwig i’r golwg ar y traeth ger Ynyslas.

Cyfeirir at Gors Fochno yn llenyddiaeth gynnar Cymru, a cheir y cyfeiriad cyntaf ati –‘A chad cors mochno’– yn y Llyfr Du o’r ddeuddegfed ganrif. Mae nifer o hanesion yn ein llên gwerin yn ymwneud â’r gors, a dywedir fod Hen Wrach yn arfer byw yno. Roedd holl drigolion yr ardal yn ei hofni am ei bod yn gwbl ddirugaredd ac yn melltithio pawb. Dywedir nad oedd unrhyw beth a allai ei dinistrio hi ond tân, ond gan ei bod yn byw ar gors ddyfrllyd nid oedd gobaith i hynny ddigwydd. Roedd mor hyll fel na ddeuai o’i chartref yn ystod y dydd rhag i neb ei gweld. Ar nos dywyll creai darth tew a llaith fel mantell dros y gors, ac ynghanol hwnnw y deuai allan i daenu ei melltith ar y plwyfolion. Dywedir ei bod yn fyw o hyd ac yn cysgu yn y gors.

Yn ôl chwedl arall, roedd cored gan Gwyddno Garanhir, tywysog Cantre’r Gwaelod, ar fin y gors, ac yno y daethpwyd o hyd i Daliesin Ben Beirdd mewn corwg. Aed ag ef i blasty Gwyddno, a bu yno nes boddwyd Cantre’r Gwaelod. Llwyddodd Taliesin i ddianc o’r môr a bu’n byw ar ochr y mynydd o dan y Graig Fawr. Gwelir ei fedd hyd heddiw tu ôl i bentref Tre-Taliesin.

Mae llawer o farddoniaeth gynnar Cymru yn cyfeirio at frwydrau ar y gors. Dywedir fod Brwydr Cors Fochno wedi digwydd cyn dyfodiad y Normaniaid yn 1066, lle ceisiodd Caradog ap Rhydderch ap Iestyn gael help gan y Sacson, y Brenin Harold Godwinson a’i frawd Tostig, i drechu’r Brenin Gruffydd ap Llewelyn ap Seisyllt o Ogledd Cymru. Cyfarfu milwyr y ddwy ochr ger aber yr afon Ddyfi, ac i’r frwydr ddigwydd ar draethau’r Borth ac Ynyslas, ar gyrion y gors.



Y llwybr pren o’r Oes Efydd ar gyrion y gors.

Ceir hanes am frwydr arall pan broffwydodd Myrddin Wyllt y byddai’r Cymry a’r Gwyddelod yn trechu’r Saeson mewn brwydr erchyll ar Gors Fochno. Deuai’r fuddugoliaeth gan eu bod yn gyfarwydd â’r tir mawnog, y llwybrau a’r pyllau dwfn yn y gors, ond byddai’r Saeson yn eu harfau trymion yn suddo i’r dyfnderoedd. Felly, os gwir yr honiad i lawer brwydr ddigwydd yn ardal y gors, tybed sawl milwr a’i arfau a suddodd i’w chrombil?

Yn ôl llên gwerin dyma un fersiwn o sut y cafodd y gors ei henw: penderfynodd tywysog o’r de ymweld â’i deyrnas oedd yn ymestyn hyd at gyrion y gors, a chyrhaeddodd yno gyda digonedd o fwyd oedd yn cynnwys gyrr o foch. Nid oedd y trigolion lleol wedi gweld moch o’r blaen, a phenderfynwyd nodi’r digwyddiad drwy alw’r gors yn Gors Fochno. Yr enw lleol ar y gors yw’r ‘figyn’, a byddai pobl yr ardal yn mynd i’r figyn i ladd mawn. Roedd y tir comin yn sicrhau fod y gymuned leol yn cael digon o danwydd i’w cadw’n ddiddos dros y gaeaf. Golygfa gyffredin yn yr hydref oedd gweld plwyfolion yn cerdded o’r figyn gyda’r mawn mewn cawell ar eu cefnau, neu mewn cert a dynnid gan asyn.

Yn 1759 roedd gweithwyr o ystad Gogerddan yn lladd mawn yno pan ddaethant ar draws esgid ledr mewn cyflwr perffaith yn y mawn. Yr hyn a’i gwnâi’n anarferol oedd fod blaen yr esgid yn fain iawn ac yn troi i fyny at y penglin. Gelwid y math yna o esgid yn *poulaines* a châi ei gwisgo rhwng 1395 a 1410 gan foneddigion yn unig. Tybed sut y daeth esgid o’r fath i fod yno?

Yn 2002 daeth ffermwr o hyd i lwybr pren tra’n gwella ei dir ar gae yn ymyl y gors. Cymerwyd samplau o’r coed derw, a darganfyddwyd fod pren y llwybr yn dyddio’n ôl i’r Oes Efydd, a bod y llwybr wedi ei adeiladu rywbryd rhwng 900 OC ac 1020 OC. Credir fod y llwybr yn rhan o’r hen ffordd ar draws y tir tuag at eglwys ac anheddau Llangynfelyn.

Enwyd plwyf Llangynfelyn ar ôl Cynfelyn Sant a oedd yn byw yn y chweched ganrif. Dywedir ei fod yn un o ddisgynyddion Ceredig a Chunedda Wledig a deuai, felly, o linach frenhinol. Aeth Cynfelyn i fyw fel meudwy mewn cell fechan ar fin Cors Fochno, ac ymhen amser cymerodd y gell honno ei enw ef a’i galw o hynny ymlaen yn Llangynfelyn. Mae’n debyg ei fod yn ddyn parchus yn ei ddydd yng ngogledd Ceredigion, a’i enw yn dal hyd heddiw mewn llawer o enwau llefydd yn yr ardaloedd cyfagos, er enghraifft, Sarn Cynfelyn a Chwm Cynfelyn. Soniodd Dafydd ap Gwilym amdano yn ei gywydd i’r ‘Carw’ pan mae’n gofyn i Dduw gadw’r creadur yn ddiogel ar ei daith o Frogynin at Dyddgu yn Nhywyn. Bardd arall a ganodd i Gynfelyn oedd Lewis Glyn Cothi.

Diwydiant pwysig ym mhentref Tre’r-ddôl yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd gwneud hetiau ffelt a’r rheswm am hynny oedd y ffaith bod Cors Fochno mor agos i gyflenwi digon o fawn ar gyfer y gwaith. Gwnaed pob math o hetiau ffelt yn y plwyf, gan gynnwys hetiau coryn hir i ferched, a hetiau arbennig i’r mwynwyr a’r chwarelwyr lle roedd modd gosod cannyll ar gantel yr het. Gwerthid yr hetiau mewn ffeiriau a marchnadoedd ledled Cymru, a hetiau’r mwynwyr yn cael eu gwerthu yn ardaloedd y chwareli yn y gogledd ac ardal y gweithfeydd glo yn y de.

Felly, mae Cors Fochno yn nodwedd ddaearyddol bwysig yn yr ardal, ac wedi chwarae rhan bwysig yn ein llên gwerin yn ogystal ag yn hanes hynafol y plwyf. Rhaid diolch fod y bywyd gwyllt, y planhigion a’r amgylchedd yn cael eu hastudio a’u gwarchod, a bod yr hen chwedlau yn cael eu hadrodd a’u diogelu i’r cenedlaethau sydd i ddod.

MAES Y GWAED

Y tro hwn yn y gyfres achlysurol hon ar y Rhyfel Byd Cyntaf, cawn ychydig o hanes un o feibion mwyaf adnabyddus Tal-y-bont.

Gwirfoddolwyr oedd y milwyr a ymrestrodd yn ystod deunaw mis cyntaf y rhyfel, ond wedi cyflwyno gorfodaeth filwrol yng ngwanwyn 1916 aeth llawer o ddynion ifanc i ryfel yn erbyn eu hewyllys. Ceisiodd rhai osgoi cael eu galw i'r fyddin drwy apelio gerbron tribiwnlysoedd lleol a allai gynnig eithriad iddynt pe baent yn cydymffurfio â rhai amodau. Yn aml roedd angen iddynt brofi eu bod yn anhepgor mewn rhyw weithgaredd fel ffermio neu gynnal busnes a oedd yn hanfodol i'w cymunedau.

Pan ddathlodd Evan (Evy) Samuel Davies, Tal-y-bont, ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ym mis Mai 1916, roedd wedi cyrraedd yr oedran pryd yr oedd yn agored i'w alw i wasanaethu gyda'r lluoedd arfog. Roedd Evy Davies wedi'i eni yn Llundain yn 1898, ond fe gafodd lawer o'i addysg gynnar yn ysgol Tal-y-bont a bu'n cynorthwyo yn siop y pentref (Ceulan Stores; Central Stores yn ddiweddarach) a oedd wedi'i phrynu gan ei dad, Samuel Morris Davies, yn 1906. Cadwai Samuel Davies hefyd siop ddillad lewyrchus yn Llundain hyd nes i'r adeilad gael ei ddinistrio yn y 'Blitz' yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Rhwng 1910 a 1916 rheolwyd y siop yn Nhal-y-bont gan ŵr poblogaidd o'r enw Ifan Williams a ddeuai o Harlech yn wreiddiol. Ond ym Mawrth 1916 ymunodd yntau â'r llynges a daeth Evy yn rheolwr ifanc iawn ar y siop. O hynny ymlaen adwaenid y siop yn lleol fel 'Siop Evy'.

Yn Chwefror 1917, gyda'r fyddin yn pwyso i gael mwy a mwy o ddynion ifanc yn ei rhengoedd, roedd angen i Evy fynd gerbron y tribiwnlys lleol er mwyn ceisio am eithriad (*exemption*). Gallai ddadlau ei fod yn rheoli busnes gwerthu bwydydd, gan gynnwys



Llund Ewy Davies y milwr.

bara, a bod hynny'n angenrheidiol ar gyfer gwasanaethu'r gymuned. Roedd hefyd yn tyfu tatws. Roedd ei achos yn un cryf o dan yr amod categori D sef: *'Ar y sail y byddai caledi difrifol yn dilyn pe bai'r dyn yn cael ei alw i wasanaeth gan y Fyddin, oherwydd ei rwymedigaethau ariannol neu fusnes eithriadol neu sefyllfa ddomestig.'*

Llwyddodd ei gais ac eithriwyd ef yn amodol am gyfnod. Fodd bynnag, wedi colledion eithriadol o uchel ymhlith y lluoedd arfog yng ngwanwyn 1918, pasiwyd Deddf Gwasanaeth Milwrol newydd ym mis Ebrill y flwyddyn honno a chyhoeddwyd Proclamasiwn arbennig a olygai dileu'r dystysgrif eithriad a ddaliai Evy a'i debyg. Er i Evy apelio unwaith yn rhagor i'r tribiwnlys sirol ym mis Mai 1918, nid oedd yn llwyddiannus wrth i'r tribiwnlys hawlio nad oedd gan y tribiwnlys yr awdurdod i weithredu yn erbyn telerau'r Proclamasiwn.

Gyda hynny, gorfodwyd Evy i ymuno â'r fyddin a bu'n gwasanaethu gydag ail fataliwn Y Ffiwsilwyr Cymreig. Roedd Evy Davies yn ffodus i gael ei alw i'r fyddin ym misoedd olaf y rhyfel (er na wyddai neb pryd y deuai'r brwydro i ben).

Erbyn iddo gwblhau ei gyfnod o hyfforddiant milwrol, roedd yr ymladd yn dirwyn i ben a chyhoeddwyd cadoediad yn Nhachwedd 1918. Wedi hynny bu'n gwasanaethu gyda'r fyddin yn Cologne yn yr Almaen tra oedd mawrion gwladwriaethau'r byd, gan gynnwys Lloyd George, yn ceisio dod i gytundeb ar sut i sicrhau heddwch byd yn y dyfodol.

Dychwelodd Evy i Dal-y-bont yn 1920 a chynnal y busnes fel o'r blaen. Mae ei ddwy ferch, Mrs Kathleen Richards a Mrs Ann Jenkins, yn parhau i fyw yn y pentref.

GJ

Dewch i ddathlu Ras yr Iaith

Bydd Ras yr iaith yn digwydd eleni rhwng y 4ydd a'r 6ed o Orffennaf. Ar y diwrnod cyntaf, sef y 4ydd, bydd cymal o'r ras yn cychwyn o Fachynlleth am 4.30yp ac yn gorffen yn Aberystwyth am 6.30yp. Mae Aeron a Wil o'r gyfres deledu 'Wil ac Aeron' yn mynd i fod yn dechrau'r Ras eleni yn Machynlleth am 4.30 a bydd Dewi Pws yno hefyd i ysbrydoli pawb. Mae croeso i bawb ddod i Ganolfan Owain Glyndŵr erbyn 4.30 dydd Mercher y 4ydd er mwyn cael llawer o hwyl i ddathlu'r Gymraeg yn y Canolbarth. Bydd modd i redwyr ymuno â'r ras wrth iddi fynd trwy bentrefi gogledd Ceredigion.

Beth yw Ras yr Iaith?

Pwrpas y ras yw dathlu'r Gymraeg, codi ymwybyddiaeth



o'r iaith, codi hyder a dangos i'r byd bod cefnogaeth i'r Gymraeg ar lawr gwlad. Ras sydd wedi ei seilio ar ras y *Korrika* yng Ngwlad y Basg yw Ras yr Iaith. Erbyn hyn mae ras debyg yn Llydaw (*ar Redadeg*) ac Iwerddon (*an Rith*). Yn 2016 codwyd dros

£14,000 yn sgil cynnal y Ras yng Nghymru, a derbyniodd dros 45 o fudiadau Cymreig gymhorthdal er mwyn hybu'r iaith.

Mae'r ras yn edrych am noddwyr lleol, felly os oes diddordeb gennych mewn noddi'r cymal hwn o'r daith, cysylltwch â ni. Byddwn yn croesawu pawb i redeg fel unigolion a mudiadau. Welwn ni chi ar y diwrnod.

Cysyllter â Nia Llywelyn ym Menter Maldwyn, un o'r trefnwyr: nia.llywelyn@googlemail.com

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch



Betty Jenkins yn dangos ei gwaith.

Yn ein cyfarfod fis Mai, a chyn cyflwyno ein siaradwr gwadd, braf oedd cael llongyfarch dwy o'n haelodau ar eu llwyddiannau diweddar. Enillodd Betty Jenkins dair gwobr gyntaf ac un ail wobwr am ei gwaith gwnïo yng Ngŵyl Fai, Merched y Wawr, Ceredigion. Bydd un o'i gwaith, sef y clustog a frodiodd, yn rhan o arddangosfa Ceredigion a fydd yn cystadlu yn y Sioe Fawr yn Llanelwedd ym mis Gorffennaf.

Yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch, enillodd Carys Briddon y wobwr gyntaf am ysgrifennu traethawd yn addas i'w gyhoeddi mewn Papur Bro, ar hanes ardal. Cawn gyfle i'w ddarllen yn rhifyn Mehefin o *Bapur Pawb*.

Aled Rees, deinamo o ŵr busnes talentog ac amryddawn oedd gwestai'r noson. Yn enedigol o Langwryfon bu'n rheolwr labordy biocemeg yn Ysbyty Bron-glais am nifer o flynyddoedd cyn newid cyfeiriad a mynd i fyd busnes. Mae'n gyd-berchennog Siop y Pethe ac yn rhedeg cwmnïau gwyliau 'Teithiau Tango' a 'Cambria DMC'. Roedd yn amlwg yn credu'n gryf mewn codi proffil Cymru gan hybu ei Chymreictod ac mae'n cydweithio gyda thros 150 o gwmnïau teithio ledled y byd. Cawsom glywed am y dulliau marchnata amrywiol a chyfoes a ddefnyddia i hybu ei fusnesau.

Roeddem yn llawn edmygedd o'i fentergarwch a dymunwyd yn dda iddo'n y dyfodol.




NICEIC
APPROVED
CONTRACTOR

Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com

Pen-blwydd yn 100



Modryb Gwen, gynt o Fwlchdydderwen.

Ychydig amser yn ôl euthum gyda fy nghyfnither, Beti Griffiths, a'i brawd Isaac, i barti pen-blwydd fy modryb Gwen ym Mhenarth lle mae'n byw yn agos i'w merch, Caroline. Symudodd yno o Gei Newydd. Cafodd ei dwyn lan yng Nghwm Ceulan ac aeth i Ysgol Bontgoch. Bwlchdydderwen oedd enw ei chartref, lan ar y bryn i'r chwith o fferm Tŷ Nant. Nid yw'n bod mwyach.

Roedd William, brawd hynaf mam, wedi colli ei wraig ar enedigaeth efeilliaid, felly penderfynodd ymfudo i'r Amerig ac anfon pres adref at y plant. Roedd yn gadael pedwar plentyn, ar wahân i'r deg oedd ar yr aelwyd eisoes. Roedd sawl milltir o Bwlchdydderwen i Ysgol Bontgoch. Dywedai Anti Gwen mai dim ond rhyw wyth mis y flwyddyn y byddai plant Bwlchdydderwen yn yr ysgol oherwydd eira a thywydd garw. Edrychai Anti Gwen yn ifanc iawn ac yn llawer iau na'i hoedran. Mwynhaodd y dathlu'n fawr.
Mai Leeding

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

LRJ

**Plymio
cyffredinol
a chynhaliaeth**

Llion Jenkins
07958 701861
llionjenx94@hotmail.co.uk



MEHEFIN

Dyma’r haf wedi cyrraedd ac mi fydd y dydd hiraf a throad y rhod yma’n fuan!

Mae’r holl oleuni ychwanegol a’r gwres yn golygu bod planhigion yn eu tymor tyfu ac mae hynny’n amlwg ym mhob cornel o’r ardd. Ond mae’r goleuni a’r gwres hefyd wrth fodd y chwyn – felly cadwch yr hof yn brysus.

Gyda llaw, ni ddylid defnyddio’r hof ar y gwely nionod gan eu bod yn gwreiddio’n agos i’r wyneb. Chwynnu gyda’r dwylo amdani felly ac os ydych chi am arbed eich cefn, rhowch glustog dan y pengliniau!

Tasgau

- 1. Hofio’n rheolaidd i gadw’r chwyn dan reolaeth.
- 2. Defnyddiwch ddŵr yn ddarbodus. Mae un drochfa dda yn well na sawl un ysgafn ac mae’n well gwneud hynny pan fo’r haul wedi gwanio.
- 3. Ewch i chwilio am y ‘lladron’ ar y tomatos yn gyson. Dydyn nhw’n gwneud dim ond dwyn nerth y planhigyn.
- 4. Bydd letus, rhuddygl [radish], nionod mân a thatws cynnar yn barod i’w bwyta.

- 5. Gosodwch y basgedi crog yn eu lle a llenwch eich potiau gyda blodau. Ar ddiwrnod poeth, mae rhai yn eu dyfrio gyda chiwbiau rhew.
- 6. Torrwch y lawnt bob wythnos.
- 7. Plannwch weddill y blodau blwyddol.
- 8. Defnyddiwch gansen os oes gennych blanhigyn gwan a hirgoes.
- 9. Gallwch docio llwyni sydd wedi blodeuo yn y gwanwyn.
- 10. Mae rhai garddwyr yn gosod cysgod ar y tŷ gwydr rhag iddo orboethi.

- Cysgodwch eich tŷ gwydr rhag haul crasboeth. Mae awyru yn bwysig - hynny yw, agor neu gau’r ffenestri a’r drws fel bod angen.
- Yn hytrach na gosod darnau o botiau pridd ar waelod eich potiau defnyddiwch bolystyrene er mwyn cael draeniad effeithiol ac, wrth gwrs, mae’r potiau yn ysgafnach i’w trafod.
- Taenwch ddrynaid o wrtaith dros fylbiau’r gwanwyn a’u cadw yn y pridd nes i’r dail wywo.
- Chwynnwch yn ofalus rhwng ac o amgylch eich pys a ffa a’r ffa dringo a gwnewch hyn yng ngwres yr haul. Gallwch eu dyfrio ar ddiwedd y dydd.
- Erbyn hyn fe all eich planhigion tyner ifainc fynd allan i wres yr haul, ond bydd angen eu gwyllo a’u dyfrhau yn gyson nes iddynt sefydlu.
- Mae’n bwysig iawn pinsio blaendyfiant llwyni fel *Fuchsia* rhag iddynt fynd yn hirgoes; fe fydd mwy o flodau wedyn.

Viburnum

Mae cymaint o amrywiaeth o *Viburnum* fel bod modd i chi gael lliw yn yr ardd o fis Ionawr tan y Nadolig.

(Trwy garedigrwydd Llais Arduddy)

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Sesiwn Nos Wener

ELIN FFLUR



Y Llew Du, Talybont
am 8 nos Wener, 22 Mehefin

Tocynnau £8
wrth y drws neu oddi wrth
arthurdafis@googlemail.com

Lansio Ap Bys a Bawd



Ym mhabell y Mudiad Meithrin yn ystod wythnos Eisteddfod yr Urdd yn Llanelwedd lansiwyd ap newydd sbon yn seiliedig ar lyfr poblogaidd o ganeuon i blant gan Falyri Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont, a gyhoeddwyd gyntaf yn 1991, *Bys a Bawd*. Mae modd chwarae’r ap ar ffôn symudol neu ar dabled, a gweld y cymeriad bach lliwgar, Bedo, yn canu caneuon sydd wedi dod yn adnabyddus iawn erbyn heddiw, sef ‘Troi ein Dwylo’, ‘Pen Ysgwyddau Coesau Traed’ a llawer mwy. Llais Gwilym Bowen Rhys a glywir yn canu’r caneuon, ac mae’r ap yn gynhyrchiad ar y cyd gan gwmni Galactig a Cered, sef Menter Iaith Ceredigion.


Gall rhieni lawrlwytho’r ap yn rhad ac am ddim oddi ar yr ‘App Store’ ac mae’r fersiwn cyfredol yn addas i’w chwarae ar systemau Apple IOS.9 ac uwch. Mantais yr ap yw fod modd gwrando ar hwiangerddi Cymraeg yn cael eu canu ym mhob man a lle ar unrhyw awr o’r dydd.

argraffu da
am bris da



Y Lolfa holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

Nofel newydd gan awdur lleol



Bydd cyfle i ddarllen am achos arall i’w ddatrys gan yr Inspector Gareth Prior ym mhumed nofel dditectif Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont. Addewir y bydd *Digon i’r Diwrnod* yn nofel sy’n llawn tensiwn. Yn wahanol i nofelau eraill y gyfres, mae’r holl antur a’r dirgelwch yn hon yn digwydd mewn un ystafell pan fo’r Barnwr John Simmonds a’i deulu’n cael eu dal yn wystlon yn eu cartref eu hunain gan ddau ddeliwr cyffuriau. Er bod y stori’n canolbwyntio ar y gwarchae ei hun, pan fo pawb yn gaeth mewn un ystafell yn y tŷ, mae digwyddiadau’r presennol yn cael eu plethu â stori a phrofiad aelodau’r teulu yn y gorffennol. Fel y mae’r gwarchae’n para, datgelir cyfrinachau pawb ac mae hynny’n arwain at ganlyniadau erchyll. Yn ôl un adolygydd sydd wedi darllen y nofel yn barod, mae digon o drais, trosedd a thwyll ynddi i’n cadw ar bigau’r drain, ac mae’r stori’n cydio o’r dechrau. Dyma antur sy’n mynd â ni i isfyd tywyll a chymhleth. Cyhoeddir y nofel gan Y Lolfa, a’i phris yw £8.99.

Offeiriad Cyntaf Elerch:
Richard Owen (1838-1913)



Beddau Richard Owen, ei chwaer Elizabeth a’i gŵr Richard Bowen, ym mynwent newydd Llanfihangel Genau’r-glyn.

Wrth i Eglwys St. Pedr, Elerch ddathlu ei chanmlwyddiant a hanner eleni mae’n amserol edrych ar yr offeiriad hynny a wasanaethodd yn y plwyf. Lewis Gilbertson (1814-1896), Plas Cefn Gwyn, Bont-goch oedd prif noddwr y plwyf, ac ef oedd ficer cyntaf Elerch gan gymryd ei ddyletswyddau yn Ebrill 1869, ond cyn hynny fe wasanaethodd gŵr lleol arall fel curad, gan gynnal gwasanaethau yn yr Ysgol a godwyd yn 1856, cyn adeiladu Eglwys St. Pedr yn 1868.

Ei enw oedd Richard Owen, ac fe’i ganwyd ym Mhenrhyn-coch yn fab i William Owen (1810-87), Felin Cwmbwa a’i briod Elizabeth (1813-74). Fe’i bedyddiwyd yn Eglwys Llanbadarn Fawr ar 22 Mai 1838. Treuliodd Richard gyfnod dan hyfforddiant yn Rhydychen cyn ei ordeinio yn 1862, ac roedd ficer St. Thomas yn y ddinas honno yn un o’i ganolwyr. Bu’n gurad yn Rhuthun 1862-63. Dan ddylanwad Lewis Gilbertson, apwyntiwd Owen yn gurad Elerch gan aros yn y plwyf o 1864 hyd at 1867 gan fyw ym Mhlas Cefn Gwyn. Dychwelodd i fyw i Well Street, Rhuthun lle bu’n gurad ar y plwyf yn ogystal â phlwyf Llanrhydd. Apwyntiwyd ef yn ficer Glyndyfrdwy yn 1876, cyn ei benodi’n rheithor Llanfor, ger y Bala, yn 1881.

Bu farw ar ôl salwch byr yn 39 Stryd Portland, Aberystwyth ar 24 Mawrth 1913 yn 74 oed, ac fe’i claddwyd yn mynwent newydd Llanfihangel Genau’r-glyn ar 29 Mawrth 1913 yn ymyl ei chwaer Elizabeth a’i frawd yng nghyfraith Richard Bowen. Roedd yn ddibriad. (Mae rhieni Richard Owen wedi eu claddu yn hen fynwent Llanfihangel Genau’r-glyn). Bu ei frawd George Owen yn offeiriad yn Lerpwl a gogledd-ddwyrain Cymru gan wasanaethu ym mhlwyfi Bodelwyddan, Corwen, Llanelian a Threuddyn.

Richard E. Huws

Bydd Papur Pawb yn ôl yn mis
Medi. Mwynhewch yr haf.

Sefydliad y Merched Taliesin



Sefydliad y Merched Taliesin yn Rali'r Sir, dydd Sadwrn 26 Mai, yn dathlu ennill y Gystadleuaeth Gydweithredol a Chris Gilbert yn ennill y gosodiad gorau yn yr un gystadleuaeth.

Bu'n amser prysur a llwyddiannus yn Nhaliesin yn ystod y misoedd diwethaf gan i gyfarfod mis Mai yn y Llanfach ennyn ein diddordeb i fwynhau cwmni Pat Hemmings o Dre'r-ddôl a ddaeth â'i chasgliad eang o wrthrychau a hanes ei theulu, ynghyd â chreiriau yn dangos gwaith cywrain ei theulu ym myd gwnio, a gwaith brodwaith manwl i addurno y dillad o'i heiddo oedd ar gael i ni i'w gweld yn ystod ei sgwrs ddiddorol. Diolchodd Sylvia Cartwright iddi am noson ddifyr dros ben.

Daeth nifer o aelodau i gefnogi y Rali Flynyddol ar ddydd Sadwrn 26 o Fai yn Neuadd Llanfarian, a mawr oedd eu llwyddiant yno gan ddod i'r brig yn y ddwy brif gystadleuaeth, sef y Gystadleuaeth Gydweithredol ar y thema Gogoniant yr Haf gan ennill y safle cyntaf ac yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Sir yn y Sioe Amaethyddol yn Llanellwedd. Yna, yng nghystadleuaeth Aberhonddu i osodiad blodau, dyfarnwyd Chris Gilbert yn gyntaf ac mi fydd hithau hefyd yn mynd ymlaen i gynrychioli Ceredigion yn y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf.

Dyma holl ganlyniadau Taliesin:

Cystadleuaeth Gydweithredol – Cyntaf TALIESIN

Y blodau gorau yn yr adran Cydweithredol – Chris Gilbert

Coginio

Bisgedi 'Shortbread' – Canmoliaeth Uchel – Beti Wyn

Tri 'Dips' sawrus – yr ail wobwr i Liz Roberts

Gosod blodau

Cwpan Flodau Aberhonddu – y wobwr gyntaf i Chris Gilbert a'r drydedd wobwr i Beti Wyn.

Gosodiad mewn cwpan a soser (cystadleuaeth i ddechreuwyr) – y wobwr gyntaf i Liz Roberts.

Gosodiad bychan Coed a Gwlân – y wobwr gyntaf i Beti Wyn a'r drydedd wobwr i Chris.

Gosodiad ar y thema Pleidlais i Fenywod – y wobwr gyntaf i Beti Wyn a'r ail wobwr i Chris.

Gosodiad pitw 'Mellow Yellow' – yr ail wobwr i Chris.

Eitem flodau orau yn yr adran flodau – Beti Wyn.

Eitem yn defnyddio moch coed – yr ail wobwr i Beti Wyn, a chydradd drydydd i Chris a Liz.

Crefftau

Ffotograffiaeth (pont yng Ngheredigion) – yr ail wobwr i Beti Wyn.

Eitem wedi ei hailgylchu – y wobwr gyntaf i Beti Wyn.

Bag Gwyliau – y wobwr gyntaf i Beti Wyn.

Dafad – unrhyw gyfrwng – Canmoliaeth Uchel – Beti Wyn.

Y nifer uchaf o bwyntiau – TALIESIN!!! Llongyfarchiadau mawr i bob un oedd wedi cystadlu a phob lwc yn Sioe Frenhinol Llanellwedd.

Yn ystod mis Mehefin bydd nifer o ddigwyddiadau diddorol a chyffrous gyda'r merched yn mwynhau hanes bywyd Jean Guite o Eglwys-fach, sydd ar hyn o bryd yn brif gogyddes yng Nghaffi Cletwr. Bu yn ein diddori nos Fawrth 5ed Mehefin hefo hanesion difyr a doniol ei bywyd. Yna, rydym yn cael barbeciw yn Ynys Las yng nghanol y mis ac yn ymweld ag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen ddydd Gwener 6ed o Orffennaf. Dewch i ymuno â ni am gwmni difyr a hwyliog ar nos Fawrth gyntaf pob mis am 7 o'r gloch yn Llanfach, Taliesin.

BW

Taith Calan Mai Merched y Wawr Ceredigion

Rai blynyddoedd yn ôl pan oedd Ada Evans yn Llywydd Rhanbarth Ceredigion o Ferched y Wawr a minnau'n Ysgrifennydd, trefnwyd taith hanesyddol i ymweld â *Ieper* (Ypres), bedd Hedd Wyn, mynwentydd coffa'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r Senedd Ewropeaidd ym Mrwsel. Cafwyd taith lwyddiannus ac yn sgil hynny cafwyd perswād arnom ein dwy, i drefnu taith arall. Mawr fu'r trafod rhyngom, ble i fynd? Yn

y diwedd penderfynwyd ceisio creu taith i gofio'r Dywysoges Gwenllïan ac i dalu teyrnged i'w thad, Llywelyn ein Llyw Olaf.

Cafwyd 29 enw o Geredigion a chroesawyd 2 o rocesi dewr Penfro hefyd. Ymhlith y criw dedwydd a gyd-deithiodd roedd yn braf cael cwmni Diana Jones, hithau hefyd yn aelod o Gangen Tal-y-bont a'r Cylch. Ar fore Gwener y 4ydd o Fai cychwynnodd 31 ohonom ar y daith gan alw'n gyntaf yng Nghilmeri a chael cyfle yno i fyfyrto ger y gofeb i Lywelyn gerllaw afon Irfon lle y cafodd ei lofruddio ar orchymyn Edward I, brenin Lloegr. Darllenodd aelod gerdd Gerallt Lloyd Owen i'n hatgoffa o'r hyn ddigwyddodd yno yn Rhagfyr 1282. Yna cerddwyd i lawr o'r gofeb i weld y ffynnon lle golchwyd pen y tywysog cyn iddo cael ei gludo i Lundain a'i roi ar bolyn i'w wawdio. Abaty Cwm Hir oedd y lleoliad nesaf ac yno rhoddwyd torch fechan o flodau ar fedd Llywelyn.

Pan lofruddiwyd Llywelyn, gadawyd ei unig blentyn, merch fach 6 mis oed yn amddifad, gan fod ei mam, Eleanor de Montfort, wedi marw ar ei genedigaeith. Yr oedd Gwenllïan yn bwysig iawn i olyniaeth teulu Tywysogion Cymru ac wedi marwolaeth ei thad cafodd ei magu gan Dafydd ap Gruffudd, brawd Llywelyn. Gwta flwyddyn yn ddiweddarach roedd yntau wedi'i ladd a chafodd Gwenllïan a phlant Dafydd eu cadw'n gaeth ar ochymyn brenin Lloegr. Carcharwyd y bechgyn ac anfonwyd y merched i wahanol leiandai, ymhell o Gymru, yn siroedd Lincoln a Chaer-grawnt yn Lloegr. Dyma'r rhan anghofiedig o'n hanes y byddem yn ei ddilyn ar ail ddiwrnod ein taith.

Gwesty ar gyrion dinas Peterborough oedd ein cartref am 4



Megan Mai (chwith) ac Ada Evans (dde) o flaen Cofeb y Dywysoges Gwenllïan.

noson ac wedi noson o gwsg roeddem yn barod am ail ran y cofio a'r ymweliad â Chofeb Gwenllïan. Fore Sadwrn teithiwyd tua 25 millir nes cyrraedd pentref bychan o'r enw Billingborough. Ger y pentref hwn yr oedd Lleiandy Sempringham, lle cafodd y Dywysoges Gwenllïan ei chadw'n gaeth, hyd ei marwolaeth yn 54 oed yn 1337. Does dim ohono i'w weld erbyn heddiw ond mae eglwys

Sempringham yn agos i ble safai'r abaty gwreiddiol. Mae'r gofeb i Dywysoges olaf Cymru yn un nodedig, o wenithfaen Gwynedd ac o graffu arni o un cyfeiriad, mae'n edrych fel amlinelliad o leian.

Yno i'n croesawu roedd Nan Davenport, Cymraes sy'n byw'n lleol, aelod o Gymdeithas y Dywysoges Gwenllïan sydd hefyd yn Swyddog Twristiaeth i Eglwys Sempringham. Cefais i'r fraint o osod torch o flodau ger y gofeb a phrofiad cofiadwy ac emosiynol iawn oedd cyd-ganu Hen Wlad fy Nhadau wedyn. Cerddwyd y 100 llath i'r eglwys ac yn y porth cawsom ein hatgoffa o'r hanes ynglwm â Gwenllïan, a'r eglwys gan Nan cyn inni fentro i mewn i'r adeilad hanesyddol. Eisteddodd pawb yn y seddi cerfiedig hardd a chafwyd Cymanfa Ganu fer a chyfle i wrando ar gerdd hyfryd Mererid Hopwood i'r dywysoges. Cyn gadael yr eglwys cafodd pawb gyfle i weld yr arddangosfa barhaol sydd yno yn adrodd hanes Gwenllïan a phrynu nwyddau i'n hatgoffa o'r ymweliad.

Wedi dau ddiwrnod emosiynol a theimladwy, ar y dydd Sul aethom i Burghley House, gyda gerddi eang a gynlluniwyd gan Capability Brown. Dyma hefyd y lleoliad a ddefnyddiwyd ar gyfer y ffilm 'Pride and Prejudice' yn 2005. Yr oedd y gwrthgyferbyniad rhwng moethusrwydd a hanes y lleoliad hwn a'r mannau eraill y buom yn ymweld â hwy yn enfawr.

Cafwyd taith i'w chofio a braf oedd cael y cyfle i gael ein hatgoffa o hanes Llywelyn ap Gruffudd, Arglwydd Eryri, Tywysog Cymru ac i ddysgu am Gwenllïan ei ferch, a alltudiwyd o fawredd mynyddig Cymru i wastadeddau pell, dwyrain Lloegr.

Megan Mai

DYI Welsh – Llyfr dysgu Cymraeg

Newydd ei gyhoeddi y mae'r llyfr DYI Welsh gan D. Geraint Lewis, sydd wedi'i fwriadu ar gyfer dysgwyr yr iaith. Fe ofynnodd ni i un ddysgwraig brofiadol leol i ddarllen y llyfr a rhoi ei barn. Sylvie Fombonne, Lletylwydyn, Tre'r-ddôl, ond a ddaw yn wreiddiol o Baris, ac sydd wrth ei gwaith bob dydd yn gweithio fel Swyddog Gweithrediadau Academaidd yn yr Adran Ieithoedd Modern ym Mhrifysgol Aberystwyth, sy'n rhoi ei hymateb i'r llyfr.

“Dyma fy marn. Gallai'r llyfr fod yn well. Does dim allwedd i'r dysgwr allu gwybod a yw'r atebion yn ymarferion sydd rhwng tudalennau 16-20 yn gywir. Efallai fod yr emojis yn opsiwn rhatach yn lle lluniau lliw. Yn yr eirfa ar dudalennau 22-25, mae diffyg cysondeb achos does dim emoji wrth bob gair. Mae'n ymddangos i mi fod yr ymarferion sy'n dilyn wedyn ar dudalennau 26-31 wedi cael eu haddasu yn ôl yr emojis a oedd ar gael yn hytrach nag ar unrhyw sail bedagogaid.

Yr efennau da. Esboniadau gramadegol rhwydd ar gyfer dysgwyr sydd heb wybodaeth arbenigol am ramadeg. Cyflwyniad da i sut i ddysgu, yn enwedig Atodiad 2. Syniad



da yw defnyddio lliwiau i fedru adnabod enwau gwrywaidd a benywaidd yn gyflym, ac adnabod berfau ac ansoddeiriau ac ati (er, tybed a yw'r awdur wedi ystyried dysgwyr sy'n lliwddall?).

At ei gilydd, mae hwn yn llyfr da i ddechrau dysgu gramadeg.”

Mae Sylvie yn un o'r rhai sy'n gyfrifol am y clwb i helpu dysgwyr yr iaith, sef 'Dal ati', sy'n cyfarfod ar y trydydd dydd Sadwrn o bob mis am 11 o'r gloch y bore yng Nghaffi Cletwr yn Nhref-ddôl. Mae croeso i Gymry Cymraeg lleol fynd i helpu dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg drwy sgwrsio dros baned o goffi.

DAL ATI YN Y SESIWN FAWR

Dal Ati arbennig ddydd **Sadwrn 21 Gorffennaf**. Ar ôl Dal Ati yn y Cletwr yn y bore mi wnawn ni ddal y bws T2 o Dre'r-ddôl am 12.20yp a mynd ar antur i **Sesiwn Fawr Dolgellau!** Cawn ni ginio yno ac wedyn gwyllo'r bandiau a'r gweithgareddau ar y Sgwâr (sydd am ddim!). Cyfle i ddefnyddio'ch Cymraeg mewn digwyddiad hollol Gymraeg a chlên! Bws adre o Ddolgellau am 16.25, 17.35 neu 19.35 (neu 21.36 os ydych yn byw ym Machynlleth). Croeso i ddysgwyr a siaradwyr rhugl – jyst trowch lan.



Un digwyddiad oedd yn ganolog i fis Mai yn Nghletwr, sef ein parti pen-blwydd yn bump oed ar 12fed/13eg o Fai. Penwythnos i'w gofio, yn wir! Diolch i dywydd braf, a gwaith caled iawn gan Sue, Rachel a Karen (a llawer o bobl eraill), cafwyd amser bendigedig. Dydd Sadwrn oedd y parti mawr, gyda chorau yn canu, bandiau yn chwarae, pobl yn dweud straeon wrth y plant, dyn yn bwyta tân, gweithdy hwla-hwps, Pizza a chwrw da. Cyfle i ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu cymaint at y prosiect dros y pum mlynedd ydoedd, ac fel rhan o hyn cyflwynwyd bag cotwm arbennig wedi ei ddylunio gan Juliet Regan gyda lluniau o'r hen Gletwr a'r Cletwr newydd i ryw ddau ddwsin o wirfoddolwyr sy' wedi bod yn rhan o fenter Cletwr ers y cychwyn cyntaf. Rhoddwyd potel o siampên a blodau i Karen Evans, ein rheolwraig ddihafal, sydd hefyd wedi bod yn rhan allweddol o Gletwr ers y cychwyn. Ac wrth gwr, roedd cacen pen-blwydd flasus wedi'i phobi gan Jane a Bethany.



Dydd Sul, cawsom Ffair gymunedol, gyda stondinau yn codi arian ar gyfer grwpiau ac elusennau lleol, crefftwyr lleol, ynghyd â nifer o'n cyflenwyr. Eto roedd adloniant. Roedd y gweithdy iwcyleli yn ddiddorol iawn! Diolch o galon i bawb a gyfrannodd at y penwythnos, ac at bopeth er 2013.

Un arall blwyddyn nesaf efallai? Dim gobaith, sori! Ond, ar ben cael llawer o hwyl a sbri, a rhoi cyfle i'r gymuned ddod at ei gilydd, rydyn ni wedi dysgu llawer am y posibiladau o drefnu

digwyddiadau yn ein Cletwr newydd, hyfryd. Mae nifer o bobl wedi gofyn am ffwrn Pizza yn yr ardd. Cawn weld!

Mae nifer o bethau eraill wedi digwydd yn ystod y mis. Ar y 18fed cynhaliwyd sgwrs gan Arwyn George, ein pensaer, am hanes y prosiect a'r syniadau y tu ôl i'w ddyluniad trawiadol. Diddorol dros ben. Ar yr un noson roedd sesiwn chwarae gemau bwrdd, dan nawdd grŵp o Fachynlleth. Roedd hyn yn boblogaidd iawn, a gobeithio bydd mwy yn y dyfodol – cadwch lygad ar Facebook a Thrydar am ddyddiadau.




A beth sy'n digwydd ym mis Mehefin? Mae arddangosfa lluniau Malcolm Ryan, arlunydd o Ynys-las, yn parhau. Mae cwrs chwe wythnos ar "Hanfodion cyfrifiaduron" yn cychwyn ar y 4ydd o Fehefin, a fydd yn trafod pethau fel uwchraddio meddalwedd a nifer o bynciau eraill. Peidiwch ag ofni eich gliniadur! Hefyd bydd cwrs tair wythnos ar Daenlenni yn cychwyn ar y 26ain. I'r plant, bydd gweithdy crefftau – Mamaliaid Mâché a chelf pasta ar y 30ain.



Mae llawer mwy hefyd, rhywbeth at ddant pawb, heb os. Ewch at y dyddiaduron ar-lein am restr lawn. Ac wrth gwr bydd croeso cynnes ichi i gyd yn y siop a'r caffi fel arfer.

(Diolch i Ant Jarrett am y lluniau)

NC



"Dw i'n gweld fod Trump a Kim Jong-un wedi dechrau trafod o ddifrif ..."

Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn




Portread o Dai Edwards, landlord y Llew Du, gan Gladys Vasey, 1939.
[Diolch i Bob Meyrick am y llun]

Yr Athro Bob Meyrick oedd ein siaradwr gwadd ym mis Mai, a thrafodai'r proses o wneud ymchwil ym maes Hanes Celf, ac yn arbennig ei waith ymchwil ar waith yr arlunydd Gladys Vasey, yn wreiddiol o Fanceinion. Bu'n byw yn Nhal-y-bont am ychydig fisoedd yn 1939, ac yn nes ymlaen symudodd i Aberaeron, lle bu'n byw am 15 blynedd tan ei marwolaeth yn 1981. Mae nifer o enghreifftiau o'i gwaith yn y Llyfrgell Genedlaethol. Mae hanes ei bywyd yn un diddorol, ac roedd hi'n arlunydd o safon.

Ar nos Fawrth, 26ain o Fehefin, bydd Megan Hayes yn siarad (yn Saesneg) ar 'From Droving to Steam', hanes y Cardis yn y busnes llaeth yn Llundain. Croeso cynnes i bawb. Dalier Sylw: bydd y cyfarfod hwn yn cychwyn am 7.00 y.h.



Gwasg ddigidol yn creu argraff



Paul Williams ar y chwith, Rheolwr Gwaith y Lolfa, gyda'r wasg argraffu ddigidol newydd. Hefyd ar y dde y mae Morgan Roberts a Paul Russon o gwmni Xerox.

Mae gwasg y Lolfa wedi buddsoddi mewn gwasg argraffu ddigidol newydd er mwyn ychwanegu at wasg litho'r cwmni. Y Lolfa, sy'n cyflogi 20 o bobl, yw un o'r cwmnïau cyntaf ym Mhrydain i brynu'r peiriant Xerox Versant 180. Bydd y peiriant newydd yn galluogi'r cwmni i argraffu gwaith digidol o'r safon uchaf bosib. Dywedodd Paul Williams, Rheolwr Gwaith y cwmni:

“Mae yna alw cynyddol am argraffu digidol a bydd y wasg newydd yn ein galluogi i argraffu taflenni, posteri, cylchgronau a hyd yn oed llyfrau lliw llawn am brisiau rhesymol dros ben. Bydd y wasg hefyd yn caniatáu inni droi gwaith yn gyflym gyda'r safon argraffu orau ar y farchnad.”

I gyd-fynd â'r datblygiad, mae'r Lolfa wedi lansio gwefan ryngweithiol newydd a ddatblygwyd gan gwmni Gwerin o Langwryfon. Yn ogystal â bod yn llwyfan i lyfrau'r Lolfa, mae'r wefan www.ylolfa.com yn cynnig cyfle i unigolion a chwmnïau holi am brisiau argraffu.

Os ydych am gael cyngor neu bris am argraffu, gellwch gysylltu â Paul Williams yn y Lolfa paul@ylolfa.com.

Y Gair Olaf



A ydym yn gwarchod y winllan a roddwyd i'n gofal fel y dylen ni heddi? Mae ansawdd y bywyd gwyllt yn lleol wedi dirywio'n arw yn ystod yr hanner canrif diwetha yma. Mor hyfryd oedd gweld y fath gyfoeth oedd i'w weld cyn y dirywiad. Faint o drigolion ardal *Papur Pawb* sydd wedi sylwi wrth fynd dros y bont ger y ffald dros afon Ceulan, pa mor farw yw'r afon? Does dim un pysgodyn ynddi. Deng mlynedd yn ôl roedd yr afon yn fyw o bysgod, a mamau ifanc y pentref wrth eu bodd yn dangos y pysgod i'w plant yn gwibio i'r ceulannau wrth fynd heibio.

Mae'r pysgod wedi dechrau mynd ers deng mlynedd, dyna pryd y gwelais ddwrgi am y tro cyntaf yn fy mywyd yn mynd o dan y bont, a buont i'w gweld wedi dydd yn y cyfnod hwnnw. Nid oes yr un pysgodyn yn afon Ceulan ers dwy flynedd, mae yn hollol farw. Nid wyf wedi gweld yr un dwrgi ers dwy flynedd, maent wedi symud i afon arall, does dim bwyd iddynt yn afon Ceulan.

Carwn ofyn yn garedig i'r naturiaethwyr pa fath o warchod yw hyn? Mae'n rhaid cael y cydbwysedd yn iawn ym myd natur. Nid gwneud deddfau i warchod y cryf yw'r ffordd orau i warchod y gwan. Rhaid gwneud rhywbeth yn go fuan cyn aiff yn rhy hwyr, rydym bron â cholli pob aderyn sy'n nythu ar y ddaear hefyd, tra bo pob aderyn sy'n nythu'n uchel yn ffynnu. Y peth sy'n fy mhryderu i yw nad oes neb yn gofidio dim yn ei gylch.

Gwilym Jenkins



CHWARAEON

TORRI RECORD

Bydd dilynwyr seiclo yn gyfarwydd iawn â champau Anita Saycell, Dôl Pistyll, Tal-y-bont, dros y blynnyddoedd. Anita oedd y ferch gyntaf dros y llinell mewn 25 munud a 27 eiliad yn y ras 10 milltir a gynhaliwyd gan Glwb Seiclo Ystwyth ar 23 Mai gan dorri'r record am y cwrs. Roedd eisoes wedi torri'r record yr wythnos cynt ac mae nawr yn edrych ymlaen at Brofion Amser Cymru a Phencampwriaeth Rasys Ffyrdd Cymru ym mis Awst..

CAPTEN BUDDUGOL



Garmon Nutting gyda'r gwpan ynghyd â sgorwyr y goliau Llion Jenkins, Dolwerdd, Ffwrnais, Ifan Burrell a Tom Williams.

Nid yn aml y mae *Papur Pawb* yn talu sylw i gampau clwb pêl-droed Bow Street ond rhaid llongyfarch capten y tîm, Garmon Nutting, Tŷ Hen Henllys, Tal-y-bont, ar ennill

Cwpan Cynghair Canolbarth Cymru am y tro cyntaf erioed. Enillwyd y rownd derfynol o bedair gôl i dair yn erbyn y Trallwm ar faes pêl-droed Carno ar bnawn Sadwrn 26 Mai. Llongyfarchiadau hefyd i'r rheolwr Barry Williams, Tal-y-bont gynt.

CWPAN Y BYD

Mae'n siŵr ei fod yn siom i'r sawl a obeithiai fod y tymor pêl-droed wedi dod i ben gyda gôl anhygoel Gareth Bale yn erbyn Lerpwl, ond does dim pall ar y cicio pêl y dyddiau hyn wrth i gefnogwyr y bêl gron edrych ymlaen at wledd o bêl-droed wrth i gystadleuaeth Cwpan y Byd gael ei chynnal yn Rwsia yn ystod yr wythnosau nesaf. Er na fydd Bale na chwaraewyr eraill Cymru yno, fe fydd modd gweld Messi, Ronaldo, Neymar a Hazard yn ein diddanu gyda'u sgiliau rhyfeddol. Er mwyn dilyn y cyfan mae'r Lolfa wedi cyhoeddi llyfryn bach lliwgar, *Cwpan y Byd Rwsia 2018*, gan y darlledwr adnabyddus Dylan Ebenezer sy'n cynnwys manylion am y timau a llawer o luniau. Ac, ar gyfer pob anorac, mae 'na siart wal er mwyn cadw record o'r holl ganlyniadau. Dyluniwyd y gyfrol gan Elgan Griffiths, gynt o Daliesin.

Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

HUW LEWIS

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

TEIARS
HUW LEWIS
TYRES

Glanyrafon

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Rhodfa'r Parc

HUWLEWISTYRES.COM